Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ceredigion

Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

Cyfarfod 31
20 Medi 2022, 14:00
Cyfarfod rhithiol drwy Zoom

COFNODION

Yn bresennol:	
Y Cynghorydd Bryan Davies (BD)	Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd y Bwrdd)
Andrew Cornish (AC)	Coleg Ceredigion
Gavin Brown (GB)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hazel Lloyd-Lubran (HLL)	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
Megan Harris (MH)	Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Nicola Brown (NB)	Gwasanaeth Prawf
Peter Skitt (PS)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Rachel Jarvis (RJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhodri Llwyd-Morgan (RLM)	Prifysgol Aberystwyth
Richard Felton (RF)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Yr Uwcharolygydd Ross Evans (RE)	Heddlu Dyfed Powys
Victoria Jones (VJ)	Llywodraeth Cymru
Hefyd yn bresennol:	
Alun Williams (AW)	Cyngor Sir Ceredigion
Amy Richmond-Jones (ARJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Barry Rees (BR)	Cyngor Sir Ceredigion
Cathryn Morgan (CM)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Catrin Davies (CD)	Cyngor Sir Ceredigion
Claire Bryant (CB)	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Prif Uwch-arolygydd Dyfed Bolton (DB)	Heddlu Dyfed Powys
Elen James (EJ)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Keith Evans (KE)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Matthew Vaux (ME)	Cyngor Sir Ceredigion
Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:	
Diana Davies (DD)	Cyngor Sir Ceredigion
Naomi McDonagh (NMc)	Cyngor Sir Ceredigion
Kieran Metson (KM)	Cyngor Sir Ceredigion

31.1	**Ymddiheuriadau, Cyflwyniadau a Datgelu Buddiannau**
Dechreuodd y Cadeirydd drwy groesawu pawb i'r cyfarfod. Ni ddatgelwyd dim buddiannau.	

DRAFT

Ymddiheuriadau:
Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Philip Kloer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley, Gwasanaeth Prawf
Dewi Day, Prifysgol Aberystwyth
Iwan Cray, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jo McCarthy, Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Pat Smith, Adran Gwaith a Phensiynau

31.2	**Cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 12.07.22**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.07.22 yn gywir.

31.3	**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf**

Ni chodwyd unrhyw faterion o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

31.4	**Cynllun Llesiant Lleol Drafft 2023-28**

Rhoddodd NMc ddiweddariad am y Cynllun Llesiant Lleol.

Dosbarthwyd copi drafft o Gynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2023-2028 ymhlith yr aelodau cyn y cyfarfod.

Cafodd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wybod, yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fod yr amcanion llesiant a gytunwyd iddynt wedi'u hanfon ymlaen i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 1 Gorffennaf 2022 fel y gellid dechrau'r broses ymgysylltu 14 wythnos. Yn ogystal â'r 4 amcan, rhannwyd hefyd y fframwaith arfaethedig er mwyn i'r aelodau ei ystyried, cynnig syniadau a rhoi adborth. Diolchodd NMc i swyddfa'r Comisiynydd am yr awgrymiadau a gafwyd gan nodi i'r awgrymiadau hyn fod yn adeiladol iawn ac yn gymorth wrth lunio'r cynllun. Anfonwyd y fersiwn ddiweddaraf at y Comisiynydd wythnos yn ôl fel y gallai gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol. Dywedwyd y byddai'r cyfnod o 14 wythnos yn dod i ben ar 7 Hydref ac felly roedd ganddynt tan hynny i fireinio eu cyfraniadau.

Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu. HLL oedd yn cadeirio'r Grŵp ac roedd cynrychiolwyr o'r bwrdd yn mynd i'r cyfarfodydd. Dywedodd NMc mai diben y grŵp oedd casglu barn y partneriaid a chyfrannu at y cynllun. Er mwyn gwneud hyn, roedd tudalen benodol wedi'i chreu ar Teams lle'r oedd modd i bob un o'r partneriaid a oedd yn bresennol ddiweddaru dogfen fyw yn ystod y cyfarfodydd ac ar ôl hynny. Bu hyn yn ddefnyddiol iawn. Hefyd, roedd y partneriaid wedi rhannu eu hamcanion strategol a oedd wedi'u mapio ar fatrics fel y gellid nodi'r cysylltiadau rhwng cyfeiriadau

corfforaethol y sefydliadau sy'n bartneriaid. Yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf, roedd tlodi wedi'i gadarnhau fel thema yn y cynllun arfaethedig ac roedd bellach yn thema drawsbynciol ar gyfer pob un o'r pedwar amcan. Roedd trosolwg o'r modd y byddai'r amcanion yn cael eu cyflawni wedi'i gynnig yn y ddogfen ddrafft. Fodd bynnag, cytunwyd bod ymgysylltu â'r cymunedau a'r sefydliadau sy'n bartneriaid yn bwysig fel y gallwn gynnwys yr holl fanylion angenrheidiol.

Cynigiwyd a chytunwyd y dylai Grŵp Gorchwyl a Gorffen gael ei sefydlu i gynorthwyo â datblygiad y gwaith ymgysylltu dros y cyfnod ymgynghori 12 wythnos. Byddai hyn hefyd yn cryfhau'r ffordd o ymgysylltu â chymunedau yn ystod cyfnod y cynllun. Cynigiwyd y dylid defnyddio'r lens llesiant (a gynhyrchwyd gan Dîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) gan ystyried elfennau allweddol wrth wneud penderfyniadau a pharatoi cynlluniau cyflawni. Roedd NMc wedi cwrdd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a fyddai'n gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gorllewin Cymru dros y 5 mlynedd nesaf i hwyluso gwell ymgysylltu â'r cymunedau a chynigiwyd y dylai'r rhwydwaith gefnogi gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen.

CAM GWEITHREDU: Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o blith y partneriaid i roi sylw i'r gwaith ymgysylltu fyddai angen ei wneud o ran y Cynllun Llesiant Lleol. Byddai aelodau'r grŵp yn dod o'r holl sefydliadau sy'n perthyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dywedodd NMc fod disgwyl sylwadau terfynol Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol erbyn 7 Hydref, sef diwedd y cyfnod ymgysylltu 14 wythnos. Ar ôl i Swyddfa'r Comisiynydd nodi unrhyw ystyriaethau ychwanegol, byddai'r cynllun llesiant drafft yn cael ei gyfieithu ac ar ôl hynny, byddai'r ymgynghoriad 12 wythnos â'r cyhoedd yn medru dechrau. Esboniodd NMc y byddai'r ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hystyried ar ôl y cyfnod ymgynghori 12 wythnos ac y byddai addasiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun yn ôl yr angen. Byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gynnar ym mis Mawrth 2023 ac yn amodol ar gael ei gymeradwyo, byddai pob aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedyn yn ystyried y Cynllun Llesiant Lleol yn eu cyfarfodydd Bwrdd. Ar ôl i'r sefydliadau hyn gymeradwyo'r cynllun, y disgwyl oedd y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymeradwyo'r Cynllun yn derfynol ym mis Ebrill 2023.

Rhoddodd NMc drosolwg o amcanion a dyheadau'r cynllun, a oedd wedi'i ddosbarthu i'r grŵp cyn y cyfarfod. Tynnodd NMc sylw at rai o'r amcanion gan nodi sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni drwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd Swyddfa'r Comisiynydd wedi cymeradwyo'r hyn a gynigiwyd o ran y gwaith sy'n seiliedig ar le, ac roedd am sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu trosglwyddo i lefydd eraill lle bo hynny'n briodol.

Ar ôl y trosolwg a ddarparwyd gan NMc, dywedodd yr aelodau fod angen diweddaru rhai o'r logos.

CAM GWEITHREDU: Byddai NMc yn sicrhau bod pob un o'r logos yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau mai'r fersiynau diweddaraf oedd wedi'u cynnwys yn y ddogfen.

DRAFT

Gofynnodd KE pa mor hyblyg oedd y cynllun, yn benodol o ran y trefi a gyfeiriwyd atynt a'r gwaith o ran mynd i'r afael â chaledi. Dywedodd NMc fod Is-grŵp Mynd i'r Afael â Chaledi / Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cwmpasu'r sir gyfan a bod y gwaith a wnaed yn seiliedig ar y data diweddaraf a'r Asesiad Lleol a gynhaliwyd yn 2021-22. Byddai'r grŵp hwn yn parhau â'i waith a byddai'n is-grŵp pwysig wrth fynd i'r afal â'r materion a wynebai'r cymunedau yn yr hinsawdd ariannol a oedd ohoni ac yn y dyfodol.

Cytunodd HLL fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut y byddai'n mynd ati i gyflawni'r cynllun dros y bum mlynedd nesaf gan feddwl am y trefniadau llywodraethu fyddai angen eu rhoi ar waith. Dywedodd HLL fod dull gweithredu is-grŵp y prosiect peilot sy'n seiliedig ar le wedi'i gydnabod fel un oedd wedi gweithio ond bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut y byddai modd defnyddio'r hyn a ddysgwyd ar draws y sir a sut y byddai modd i ni wneud y mwyaf o'r partneriaethau i gyflawni ein camau gweithredu.

Hefyd, pwysleisiodd HLL, yn sgil yr argyfwng costau byw parhaus a'r angen i'r partneriaid ymateb, y byddai angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau bod ei ymdrechion yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw yn ystod cyfnod cyntaf y cynllun.

CAM GWEITHREDU: Gweithio tuag at fframwaith llywodraethu ar gyfer y Cynllun Llesiant sy'n cynnwys y canlynol: diffinio atebolrwydd, amlinellu rolau a chyfrifoldebau, llunio amserlenni a chreu systemau adrodd.

Diolchodd HLL a'r Cadeirydd i NMc a LW am eu gwaith hyd yma ar y Cynllun Llesiant ac i bawb ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gyfrannodd at y cynllun.

31.5	**Diweddariadau am Brosiectau Peilot y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n seiliedig ar le**

<u>Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio</u>

Roedd cadeirydd yr is-grŵp wedi ymddiheuro am na fedrai ddod i'r cyfarfod ac felly rhoddwyd y diweddariad gan RJ.

Dywedodd RJ fod gwaith y grŵp peilot bellach yn ystyried y blaenoriaethau a oedd yn codi o Amcan 3 fel y'i cynigiwyd yn y Cynllun Llesiant Lleol newydd ar gyfer 2023-28. Roedd yr adborth a gafwyd o'r Asesiad Llesiant Lleol yn cyfrannu at y gwaith peilot a'r amcan oedd canolbwyntio ar yr heriau a wynebai ein cymunedau o ganlyniad uniongyrchol i newid hinsawdd. Roedd sylw'r aelodau wedi'i hoelio ar gydweithio er mwyn darparu cynlluniau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

Roedd y grŵp peilot wedi parhau i gwrdd a chafwyd y cyfarfod diwethaf ar 8 Medi. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cytunodd y partneriaid fod angen i gamau gweithredu'r is-grŵp gynnwys amrywiaeth eang o gamau gweithredu unigol a chamau gweithredu ar y cyd wrth i bob un ohonom wneud ein gorau glas i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030.

DRAFT

Dywedodd RJ fod angen ystyried natur economaidd a chymdeithasol y sir a bod angen i gamau gweithredu'r partneriaid roi sylw i weithgarwch datgarboneiddio, mesurau atal llygredd ac amrywiaeth fiolegol gan gydnabod yn glir y cyfleoedd i wella sgiliau ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.

Byddai'r gwaith a wnaed o fewn y fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar le o gymorth i gymunedau ar draws Ceredigion gan eu helpu i ddatblygu cymunedau cydnerth sy'n medru addasu wrth ymateb i newid hinsawdd. Trwy addasu, byddai amrywiol sectorau yn y Sir yn cael eu hannog i gymryd camau gweithredu eang a bod yn fwy atebol.

Fel rhan hanfodol o'r gwaith yn Aberystwyth, byddai'r partneriaid yn parhau â'u chysylltiad uniongyrchol â grŵp astudiaeth ddichonolrwydd rhwydwaith gwresogi ardal Aberystwyth. Yn dilyn gwaith dichonolrwydd cychwynnol yr ymgynghorwyr, roedd maint y prosiect hwn wedi cynyddu ac roedd gwerth y prosiect cyfan bellach oddeutu £40 miliwn. Roedd sgyrsiau manwl yn cael eu cynnal yn awr ynghylch y modelau ariannu a pherchnogaeth, buddsoddwyr posibl a thrafodaethau hanfodol gyda Llywodraeth Cymru a BEIS.
Roedd y grŵp peilot yn parhau i gryfhau ei gysylltiadau â'r gwaith blaenorol oedd wedi'i wneud o ran y cynlluniau lle a hefyd ei gysylltiadau â'r cynlluniau seilwaith gwyrdd a glas. O ystyried y Cynllun Llesiant newydd, roedd cysylltiadau hefyd yn cael eu gwneud o ran manteision llesiant y 6 phrosiect posibl a oedd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer tref Aberystwyth. Roedd pwysigrwydd y gwaith datblygu hwn a oedd yn cael ei wneud ar gyfer y trefi marchnad allweddol ar draws y sir yn parhau i gael ei gydnabod yn glir.

Dywedodd RJ mai blaenoriaethau'r gwaith peilot oedd adlewyrchu'r targedau a'r cynlluniau gweithredu yr oedd y partneriaid wedi'u llunio ac ychwanegodd fod pob un o'r partneriaid bellach wedi cyfrannu at y gwaith yn unol â'r hyn a gynigiwyd yn y Cynllun Llesiant drafft. Byddai amrywiaeth o gamau gweithredu yn cael eu nodi o ran cynlluniau ynni lleol, cynlluniau trafnidiaeth a syniadau newydd megis rhaglenni ailddefnyddio asedau.

Byddai diweddariadau gan Bartneriaid yn parhau i gael ei rhannu ag eraill a'r bwriad oedd cyfrannu ymhellach at gyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ynghyd â gwaith Cynllun Ynni Canolbarth Cymru a'r Cynllun Ynni Lleol a oedd yn cael eu datblygu. Byddai cyfarfod nesaf y grŵp peilot hwn yn cael ei gynnal ar 6 Hydref.

Gofynnodd KE a oedd diweddariad am y cynllun plannu coed a soniwyd amdano yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
CAM GWEITHREDU: Byddai RLM yn gofyn i Dewi Day am ddiweddariad ynghylch y cynllun plannu coed a byddai'r diweddariad hwn yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr.

<u>Gwella llesiant cymunedol a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi</u>
Rhoddodd HLL ddiweddariad o'r hyn oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Gwnaeth y grŵp dderbyn diweddariad gan Gyngor y Dref am y prosiectau yr oeddent yn eu cefnogi ar hyn o bryd a'r rhai a oedd ganddynt ar y gweill. Y bwriad oedd y byddai'r is-grŵp yn datblygu perthynas â chyngor y dref a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi'r cyfleoedd hyn.

DRAFT

Rhoddodd HLL wybodaeth am y cynlluniau rhagnodi gwyrdd a glas a'r math o gynlluniau a oedd yn cael eu hystyried. Roedd hyn wedi helpu i ddatblygu rhagor o gysylltiadau rhwng sefydliadau ac roedd syniadau wedi'u cyflwyno i'w hystyried ymhellach. Trefnwyd sesiwn gyda Chanolfan Byd Gwaith Aberteifi a gwahoddwyd amrywiol sefydliadau i ddod i'r sesiwn i roi cyngor am amrywiol faterion gan gynnwys ynni yn y cartref. Hefyd, dywedodd HLL y byddai ffair gyllid yn cael ei chynnal ar ddiwedd Tachwedd, ac y byddai'r digwyddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am y grantiau a oedd ar gael a allai helpu i gefnogi amrywiol gynlluniau cymunedol.

Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan

Rhoddodd EJ ddiweddariad byr gan nad oedd y grŵp wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 13 Hydref. Roedd y grŵp eisoes wedi dechrau ar y gwaith gyda sefydliadau yn Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau ac ymhlith y themâu a oedd wedi'u codi oedd gofal cymdeithasol ac emosiynol, bwyd, iechyd corfforol, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trafodwyd hyn yn fanwl ac ystyriwyd sut y gellid defnyddio'r prif faterion yr oedd y grŵp yn canolbwyntio arnynt (llesiant, iechyd a chynaliadwyedd) i annog plant a phobl ifanc a oedd yn ymddwyn yn heriol i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Un o'r prif bethau yr oedd y grŵp yn canolbwyntio arno oedd cynaliadwyedd bwyd ac roedd cysylltiadau yn cael eu gwneud â gwaith Canolfan Tir Glas ar Gampws Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Dywedodd EJ wrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 3 Hydref i ddatblygu gwaith y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant (fel y'i cyflwynwyd gan Dr Phil Kloer yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).

Bu i PS, cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd, gadarnhau pwysigrwydd y bartneriaeth hon. Cyfeiriodd MH at y gwaith yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud ar draws yr ardal i sicrhau bod plant a oedd yn mynd i apwyntiadau ysbyty yn ystod yr awr ginio yn derbyn pryd bwyd am ddim yn yr ysbyty. Dywedodd MH fod gweithredu fel hyn ar draws rhanbarth Hywel Dda yn medru gwneud cyfraniad cadarnhaol i iechyd a llesiant.

Ychwanegodd EJ fod trafodaeth gychwynnol wedi'i chynnal eleni ynglŷn â rhaglen gwella gwyliau'r haf a'r gobaith oedd y byddai modd ei gynnal unwaith eto, fel y digwyddodd yn 2019. Roedd y rhaglen hon yn sicrhau bod plant ysgolion cynradd yn derbyn prydau ysgol am ddim am o leiaf 12 diwrnod dros wyliau'r haf. Bu i EJ gydnabod bod trefnu hyn oll yn dipyn o waith ac mai dim ond Ysgol Llwyn-yr-Eos wnaeth elwa yn 2019. Serch hynny, eleni roedd 3 ysgol arall wedi'u nodi fel rhai a fyddai'n elwa o'r cynllun.

Dywedodd GDJ fod y gwaith yr oedd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ei wneud yn Llanbedr Pont Steffan yn mynd rhagddo'n dda a'u bod yn ystyried sefydlu ystafell gymunedol yn y dref fel man cynnes i'r cyhoedd yn ystod tywydd oer y gaeaf. Byddai'r ystafell hon hefyd yn cynnig bwyd. Dywedwyd y byddai angen cysylltu hyn â'r gwaith yr oedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn bwriadu ei wneud wrth fynd i'r afael â phwysau'r gaeaf ar gymunedau Ceredigion.

DRAFT

31.6	Hybiau cynnes

Dywedodd AW fod Grŵp Arweiniol Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal cyfarfod am effaith yr argyfwng costau byw ar bobl y sir. Cynigiwyd y gallai 'Hybiau Cynnes' fod ar gael i'r cyhoedd mewn gwahanol fannau yn y sir dros y gaeaf fel y gallai pobl gadw'n gynnes ac ystyriwyd mai'r arfer gorau fyddai trafod hyn â sefydliadau eraill yn y sir fel y gellid cydweithio. Dywedodd HLL a GDJ eu bod nhw eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith cychwynnol yng nghyswllt y mater hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i AW am godi'r mater a nododd ei bod yn debygol y byddai'r gaeaf yn achosi problemau. Dywedodd GDJ y byddai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn barod i gefnogi'r cynllun a nododd fod gan y Brifysgol rôl bwysig yn Llanbedr Pont Steffan wrth weithio gyda chymorth partneriaid i hwyluso hwb cynnes yn y gymuned leol.

Dywedodd y Cadeirydd fod nifer o neuaddau pentref drwy'r sir y gellid eu defnyddio at y diben hwn. Nododd HLL ei bod hi eisoes wedi bod yn gwneud ymholiadau ac ychwanegodd mai Neuadd Llandysul oedd y neuadd gyntaf i gael ei hariannu ar gyfer darparu man cynnes i gefnogi'r gymuned leol.

Dywedodd HLL fod gan Gyngor Sir Powys gynllun a oedd yn caniatáu i gymunedau gofrestru am gymorth ariannol pe byddent yn dymuno darparu 'hybiau cynnes'. Esboniodd EJ fod manylion Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion ac mai'r bwriad oedd gwella a chynyddu'r amrywiaeth o gyfleusterau a chyfleoedd yn y sir. Roedd modd i fudiadau gwirfoddol a sefydliadau nad oeddent yn gwneud elw gyflwyno cais a chofrestru eu diddordeb mewn agor hybiau cynnes er budd pobl y sir.

Awgrymodd HLL fod yna bryder ynghylch y stigma a allai fod ynghlwm wrth y geiriau 'hybiau cynnes' ac y byddai'n well annog cymunedau i gynnal boreau coffi neu grwpiau eu hunain. Cytunodd MH y byddai yna stigma o ran galw'r canolfannau yn "hybiau cynnes", gan y gallai fod cyfystyron negyddol iddynt, ac felly y dylai'r syniad gael ei gyflwyno a'i hyrwyddo fel gweithgaredd cymunedol neu gymdeithasol gan sicrhau urddas y bobl fyddai yno.

Cyfeiriodd HLL at y sesiwn cyngor am ynni yn Aberteifi. Yr enw gwreiddiol a roddwyd i'r sesiwn oedd y sesiwn "cynyddu incwm" neu "income maximisation" ond am yr un rhesymau a nodir uchod, newidiwyd yr enw.

Gofynnodd CD a oedd gan rywun unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid cefnogi trigolion mewn ardaloedd gwledig, yn benodol y rheiny a oedd yn byw y tu allan i ardaloedd poblog heb fynediad i neuaddau pentref, ac ati. Gofynnodd DD am eglurder ynghylch pwy oedd yn cydlynu'r gwaith o ran yr hybiau cynnes a phwy fyddai'n bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Awgrymodd HLL y gellid cynnwys y gwaith hwn o fewn cwmpas yr Is-grŵp Tlodi a chytunodd aelodau'r Bwrdd y dylid gwneud hyn.

CAM GWEITHREDU: Byddai'r Is-grŵp Tlodi yn arwain grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith oedd angen ei wneud o ran yr hybiau cynnes.

DRAFT

31.7	**Adroddiad Blynyddol Mynd i'r Afael â Chaledi 2021-2022**

Rhoddodd CM ddiweddariad ar ran y Cynghorydd Catrin MS Davies, Cadeirydd yr Is-grŵp Tlodi.

Dywedodd CD fod yr is-grŵp yn taro golwg ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran y strategaeth. Roedd y tri amcan allweddol fel a ganlyn:

1) Cydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth gyda'r asiantaethau sy'n bartneriaid o effaith Covid-19 ar galedi yng Ngheredigion
2) Cydlynu a chydweithio gyda'r asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael ac annog pobl i fanteisio ar hyn
3) Nodi blychau a chymorth.

Dywedodd CD fod y cynllun gweithredu wedi'i rannu'n 3 colofn ar wahân: costau, llesiant corfforol ac emosiynol a chydnerthedd cymunedol. Roedd cynnydd wedi'i wneud ym mhob un o'r 3 colofn a chafwyd rhai gwelliannau o ran y data wrth fonitro'r cynnydd a wnaed. Serch hynny, ers yr adroddiad, roedd yr argyfwng costau byw wedi dwysáu a byddai hyn yn cael ei fonitro'n agos yn ystod y misoedd nesaf.

O ran y casgliadau a'r canfyddiadau, roedd y prif benawdau fel a ganlyn: roedd pobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dyledion cynyddol ac ym mis Mawrth 2022 sef diwedd cyfnod yr adroddiad, roedd 35% o bobl (y nifer uchaf erioed) wedi nodi bod ganddynt bryderon ynghylch eu gallu i dalu biliau. Rhaid nodi y gallai'r ffigwr hwn fod yn uwch erbyn hyn. Roedd tlodi plant yn uwch na'r cyfartaledd a dyma oedd y cynnydd mwyaf mewn tlodi plant yn genedlaethol ers 2014-2015.

Ychwanegodd CD fod y cyfleoedd o ran gofal plant yn parhau i ostwng yng Ngheredigion a bod mwy o bobl angen cefnogaeth o ran problemau iechyd meddwl. Roedd yn heriol i ddarparwyr gofal iechyd ymateb i'r problemau hyn ac roedd sicrhau mynediad at wasanaethau arbenigol yn dal i fod yn hynod o anodd.

Roedd y cynnydd mewn costau adeiladu a'r nifer cyfyngedig o gontractwyr yn creu heriau o ran darparu tai fforddiadwy.

Camau nesaf yr Is-grŵp Tlodi fyddai parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data ac adolygu'r rhestr o enwau'r partneriaid a oedd yn cyfrannu at y cynllun gweithredu. Rhagwelid y byddai tlodi yn cynyddu yng Ngheredigion oherwydd yr argyfwng costau byw felly byddai angen addasu'r cynllun gweithredu i adlewyrchu hyn.

Dywedodd CD fod cyfarfod wedi'i gynnal yn ddiweddar gyda'r banciau bwyd, cynlluniau tyfu cymunedol a oedd yn darparu bwyd i bobl leol, CAVO a Chyngor ar Bopeth. Cytunwyd bod angen gwella'r ffordd o gasglu a rhannu'r wybodaeth hon. Cyn i'r gaeaf ddod ar ein gwarthau, roedd gwybodaeth yn cael ei pharatoi i'w rhannu â phob cartref yn y sir i godi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau cymorth hyn.

DRAFT

31.8	Diweddariad am Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Rhoddodd CJE ddiweddariad am y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cronfa 3 blynedd oedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a oedd yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth fuddsoddi: Cymuned a Lle; Cynorthwyo Busnesau Lleol; Pobl a Sgiliau, a blaenoriaeth i wella rhifedd oedolion o'r enw "Lluosi i Wella Sgiliau Rhifedd ymhlith Oedolion". Roedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn cael ei gweld fel y Gronfa a fyddai'n disodli cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a fyddai'n dod i ben yn dilyn Brexit.

Dywedodd CJE fod y dogfennau perthnasol yn cael eu datblygu, gan gynnwys strategaeth weithredu, adnoddau a chynllun comisiynu. Fel yr awdurdod arweiniol, byddai angen i Gyngor Sir Ceredigion baratoi'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Powys a Cheredigion. Byddai'r cynllun wedyn yn cael ei gyflwyno gerbron Llywodraeth y Deyrnas Unedig a dyma fyddai'r fframwaith ar gyfer y buddsoddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i CJE a'r holl staff a oedd yn gweithio ar y prosiect.

Gofynnodd CD a fyddai modd sefydlu cynllun i wella sgiliau pobl wrth iddynt fynd i un o'r hybiau cynnes. Cytunodd y Cadeirydd â hyn a dywedwyd y byddai hyn yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth Luosi. Nodwyd bod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi anfon llythyr at y llywodraeth yn gofyn iddi fod yn fwy hyblyg wrth rannu'r cyllid a chaniatáu cynlluniau fel hyn. Ychwanegodd CJE y byddai cael hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid fel hyn yn wych ond byddai'n dibynnu ar y cyfyngiadau a fodolai o ran defnyddio'r cyllid. Roedd y Cyngor yn dal i aros i glywed beth yn union oedd y sefyllfa.

Nododd CJE fod arolwg ar-lein wedi'i gynnal dros yr haf i gasglu barn pobl ynglŷn â'r modd y dylid gwario'r arian. Gofynnwyd i bobl bleidleisio am eu blaenoriaethau a chynhaliwyd arolwg mewnol i weld lle'r oedd cyfleoedd i ddefnyddio'r cyllid. Roedd gweithdy mewnol hefyd wedi'i gynnal i lunio trosolwg strategol.

Dywedodd HLL fod angen cynnal gweithdy gyda'r partneriaid eraill fel y gellid cynllunio gyda'n gilydd a chaniatáu i waith gael ei wneud gyda chymorth y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Pwysleisiodd HLL y dylai'r cyllid gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith yr oedd gwir angen ei wneud ac na ddylai cyfyngiadau'r cyllid bennu pa waith fyddai'n digwydd (hynny yw, dylai'r gwaith fod yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar arian).

CAM GWEITHREDU: Byddai CJE yn dosbarthu rhagor o wybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin pan fyddai ar gael.

31.9	Unrhyw Fater Arall

Pwysleisiodd y Cadeirydd mor bwysig oedd rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf am y materion a drafodwyd, ac yn benodol am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran yr hybiau cynnes.

31.10	Dyddiad y cyfarfod nesaf

2 Rhagfyr 2022, 13:30-15:30

DRAFT

DRAFT